# CRYNODEB
# CYLLUN CREU LLEOEDD BWCLE



creu lleoedd SIRYFFLINT

Roberts Limbrick

chris jones

# CRYNODEB

Diben y Cynllun Creu Lleoedd hwn yw nodi'r anghenion, y weledigaeth, y dull a'r fframwaith cyfleoedd a fydd yn helpu cynllunio a chyflawni gweithgarwch a buddsoddiad seiliedig ar le yn Bwcle. Er ei fod yn canolbwyntio ar ganol y dref, mae'r Cynllun yn edrych hefyd ar y berthynas ehangach gyda'i gymdogaethau a'i drigolion. Mae Bwcle yn un o saith o drefi ledled y Sir sy'n cynnwys Cei Connah, y Fflint, Treffynnon, yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn helpu i ddangos ac adnabod anghenion lleol, ac felly rhoi tystiolaeth i sefydliadau cyflawni strategol wrth gysoni gwasanaethau o ddydd i ddydd, yn ogystal â throsoli cyllid grant ar gyfer prosiectau adfywio yn y dyfodol. Mae hefyd yn nodi ffyrdd o weithio sy'n pontio partneriaethau strategol a lleol a fydd yn helpu meithrin datblygu a gweithredu prosiectau ar y cyd a chynaliadwyedd mwy hirdymor tref fel Bwcle.



## Heriau Bwcle

- Mae poblogaeth y dref wedi tyfu dros y ddeng mlynedd ddiwethaf ond mae ei chysylltedd ac agosrwydd at drefi ac atyniadau siopau eraill yn arwain at ddargyfeirio gweithgarwch a lleihau teyrngarwch i ganol y dref.
- O fewn cymdogaethau Bwcle ac ar ymyl y dref mae rhai asedau allweddol fel clwb pêl-droed y dref, y Comin a llyn hwyaid, nifer o ysgolion cynradd a'r Stryd Fawr sy'n denu trigolion i fyw yno ond nad ydynt yn edrych i mewn i ganol y dref trwy rwydwaith o gysylltiadau ffisegol.
- Mae'r rhwydwaith priffyrdd yn mynd â chi o amgylch cefn canol y dref, gyda golygfeydd o iardiau cefn adeiladau a lle nad ydych yn gallu gweld canol y dref. Mae rhai adeiladau allweddol gwag ar y ddau ben yn ychwanegu at yr argraffiadau cyntaf gwael o'r ddau gyfeiriad. Hyd yn oed wrth gyrraedd, mae'r meysydd parcio allanol yn llwm a digymeriad, gyda'r llwybr i gerddwyr heb fod yn eglur na deniadol.
- Mae'r profiad o ganol y dref wedi ei ddarnio'n ddwy ardal wahanol eu cymeriad – Ffordd yr Wyddgrug a Ffordd Brunswick nad ydynt yn cyflwyno cynnig unedig i'w defnyddwyr, gydag eiddo gwag a ffryntiadau o ansawdd gwael nad ydynt yn cyflwyno hunaniaeth gydlynol ac ystyrlon. Mae hefyd rai cynhyrchwyr gweithgarwch allweddol ee y Tivoli a siop fwyd Aldi sydd wedi eu gwahanu oddi wrth y brif ardal siopa.
- Er bod y parth cyhoeddus presennol mewn cyflwr cymharol dda, mae wedi heneiddio ac nid yw'n cynnig strwythur ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol awyr agored sy'n gysylltiedig â safleoedd masnachol nac i ddibenion cymunedol. Does dim teimlad o le i dreulio amser ynddo na chyfleoedd i fywiogi'r parth cyhoeddus awyr agored hwn.
- Mae cyfleusterau dinesig a chymunedol wedi eu cuddio, naill ai o'r golwg neu wedi eu hail-leoli o ganol y dref heb ddim teimlad o wasanaethau cyhoeddus a chyfleusterau eraill y gall trigolion a defnyddwyr canol y dref droi atynt. Er enghraifft, mae llyfrgell y dref a swyddfeydd y cyngor tref yng nghanol y dref ond nid ydynt yn ennyn rhyngweithio cymunedol, gyda'r orsaf heddlu'n cau a'r ganolfan gofal iechyd sylfaenol yn symud allan. Mae angen archwilio lleoliad gwasanaethau cyhoeddus fel ysgogydd presenoldeb a gweithgarwch a chanolfannau cymunedol.

# EIN GWELEDIGAETH AR GYFER BWCLE



## Gweledigaeth

"Bwcle – calon bywyd y gymuned, gyda'i gymdogaethau gerllaw â mynediad hawdd at siopau a lleoedd bwyta, gofal iechyd a llesiant, celfyddydau a diwylliant, a'r cyfan wedi'i atgyfnerthu gan dreftadaeth falch mewn diwydiant a cherddoriaeth a bod â chysylltiadau da ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr."



## Nodau Allweddol

Gwella ansawdd ac amrywiaeth cynnig canol y dref sy'n teimlo'n lleol, apelgar ac sy'n cyffwrdd bywyd y gymuned.

Codi ymwybyddiaeth o brofiad "lleol" canol y dref ymysg trigolion, creu a datblygu ei apêl, adeiladu dilyniant a busnesau a gweithgareddau hyfyw.

Bywiogi'r parth cyhoeddus fel ei fod yn cysylltu lleoliadau amrywiol ar gyfer cerddoriaeth, diwylliant, siopa, cymuned a bwyta allan trwy fannau perfformio, marchnadoedd, defnyddio coed a phlanhigion ac ymestyn gweithgareddau masnachol.

Amlygu a gwella'r amrywiaeth o wasanaethau cymunedol sy'n cefnogi iechyd a llesiant, dysgu, cymdeithasu a chreu cymuned gydlynol Bwcle.




## CYFLEOEDD LLE



### Cyhoeddi a Chyrraedd Canol y Dref

Mae dau borth bob pen i ganol y dref lle mae Ffordd Argoed/A549 yn dargyfeirio traffig i'r gogledd o'r llwybr llinellol hanesyddol drwy'r dref. Mae hyn yn arwain at leoedd anniffiniedig o dan orchuchafiaeth ceir gyda chysylltiadau gweledol ar hyd y stryd fawr ond amgylchedd gwael i gerddwyr sy'n ei gwneud yn fwy anodd mynd iddi ac yn anghroesawgar.

Mae angen ailddiffinio'r ffyrdd fel y gellir rhoi mwy o le yn ôl i gerddwyr ac fel ei bod yn haws croesi. Bydd cyffyrdd culach, cael gwared ar rwystrau a mannau croesi uniongyrchol yn helpu gyda hyn. Gall y lle a adenillir helpu ffurfio lleoedd cyhoeddus newydd sy'n fywiog a deniadol ac yn helpu croesawu pobl i ganol y dref. Bydd mwy o le i dirlunio, seddau a chelf gyhoeddus yn helpu creu llecynnau deniadol a bywiog sy'n creu argraff gref o ganol y dref a helpu denu pobl i mewn. Gall celf gyhoeddus a murluniau a all adlewyrchu treftadaeth Bwcle fywiogi waliau gwag a chreu amgylchedd mwy lliwgar a bywiog.



### Bywiogi'r Parth Cyhoeddus

Mae cyfle i greu canolbwynt o weithgarwch o fewn canol y dref, o gwmpas Maes Parcio Ffordd Brunswick a Chanolfan Siopa Bwcle. Byddai hyn yn helpu i fywiogi canol y dref a denu pobl i mewn. Byddai hyn yn canolbwyntio ar bafiliwn/llwyfan lle gallai amrywiol weithgareddau ddigwydd megis perfformiadau neu wyliau cerddorol. Gellid trefnu seddau a mannau tirlunio i ganiatáu golygfeydd o'r pafiliwn hwn, gyda'r dewis i ddefnyddio seddau dros dro ychwanegol hefyd. Byddai hyn yn creu canolbwynt o fewn y stryd y gall pobl ymgasglu o'i gwmpas a chymdeithasu drwy'r dydd a'r gyda'r nos.

Mae'r hen siop ddisgownt ar ben Ffordd Brunswick yn dirnod amlwg rhwng canol y dref a'r porth dwyreiniol. Mae fodd bynnag yn methu yn ei botensial i gyflwyno argraff gadarnhaol o'r dref ac annog pobl i mewn iddi.Gallai'r adeilad ddod yn dirnod allweddol i'r dref. Gellir ei ailddychmygu fel canolbwynt gweithgarwch sy'n cyflwyno ffryntiad cadarnhaol ac o arwyddocâd pensaernïol  i'r stryd fawr a'r porth. Un defnydd posibl i'r adeilad hwn fyddai adleoli gwasanaethau cyhoeddus, gyda gweithgareddau'n ymestyn allan i'r stryd ac yn ailfywiogi'r ardal.




### Ailadeiladu Cymeriad a Hunaniaeth Bwcle


Mae cyfle i helpu gwella ac uno hunaniaeth Bwcle trwy ei amgylchedd adeiledig a pharth cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae dwy ardal ac iddynt gymeriad gwahanol yng nghraidd siopa canol y dref. I'r gorllewin mae Ffordd yr Wyddgrug: gwead ac amgylchedd hanesyddol. I'r dwyrain mae Ffordd Brunswick: cymysgedd tameidiog o'r hanesyddol gyda datblygiadau mewnlenwi mwy diweddar. Mae cyfle i atgyfnerthu'r ddwy ardal o gymeriad gwahanol gan ddod â rhywfaint o undod ar draws canol y dref. Gallai hyn fod yn ffurf Cod Dylunio Strydlun.

- Creu cod dylunio ar gyfer y stryd gyfan i helpu egluro hunaniaeth a gweledigaeth Bwcle.
- Pennu pa ddeunyddiau a math o dirlunio i'w defnyddio i greu golygfa stryd gydnaws ac unedig.
- Canllawiau dylunio blaenau siopau i annog symud tuag at ddyluniad unedig sy'n lleihau unrhyw flerwch.
- Datblygu strategaeth lle bo adeiladau allweddol, ffryntiadau a manylion hanesyddol yn cael eu gwella a'u dathlu o fewn y stryd



chris jones  rl.  FLINTSHIRE place making plans

## CYFLEOEDD LLE



### Gwyrddu Bwcle

Mae gwyrddu strydoedd canol y dref sy'n creu ffurf a strwythur yn flaenoriaeth allweddol wrth ychwanegu at y parth cyhoeddus, lleoedd i eistedd yn ogystal â rhoi cysgod rhag yr haul, amsugno gorlif dŵr glaw a chefnogi ffurfiau eraill o addasu i'r hinsawdd, byd natur lleol a gwytnwch ehangach. Gall strydoedd hefyd hyrwyddo tyfu lleol, blychau perlysiau a chardiau ryseitiau i hyrwyddo defnydd o lysiau tymhorol a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol. Gall y gweithgareddau hyn atgyfnerthu llesiant hefyd o fewn tref fel Bwcle.

- Plannu ychwanegol ar byrth a ffyrdd allweddol i mewn i ganol y dref;
- Plannu coed o fewn yr ardal a neilltuir i gerddwyr yn unig;
- Defnyddio tirwedd cynhyrchiol i gefnogi gweithgarwch, hyfforddiant a defnydd cymunedol mewn mentrau cymunedol seiliedig ar fwyd;
- Cefnogi plannu dinesig sy'n gwella balchder mewn lle ac sy'n gweithredu fel gerddi dŵr glaw wrth ymdrin ag addasu i'r hinsawdd.



### Rôl Cynhyrchwyr Gweithgarwch

Mae'r angen i ddatblygu hunaniaeth canol y dref fel cymdogaeth o fewn cymdogaethau yn ffactor llwyddiant allweddol i'r trefi hynny sydd wedi canfod ffyrdd o addasu eu hunain i ddibenion eraill ac ailddarganfod eu hunain. Lle bo pobl yn cyfarfod ac ymwneud â'i gilydd, mae hynny'n arwain at deimlad o berthyn, teimlo'n dda mewn lle ac adeiladu cyffro ac ynni. Mae gan Bwcle boblogaeth tref sylweddol sydd, oherwydd eu gallu i symud, â dewis pan ddaw hi'n amser hamdden a siopa iddynt. Cânt eu denu gan brofiad a gaiff ei greu, ei wneud, saernïo, cynhyrchu a churadu sy'n drip allan neu'n gysylltiedig â'u hwythnos waith.

Ar hyn o bryd, nid ydynt yn gweld canol tref Bwcle fel eu dewis cyntaf. Mae'r angen i gyflwyno profiad amrywiol, lleol ac o ansawdd uchel yn gyfle y gellir ei gyflawni trwy ddatblygu canolfannau neu gyrchfannau yng nghanol y dref. Mae dwy ganolfan/cyrchfan yng nghanol tref Bwcle ar hyn o bryd sy'n creu terfynau ar y naill ben a'r llall iddi, sef yr hen Bwll Nofio a lleoliad cerddoriaeth a chlwb nos The Tivoli. Mae hefyd botensial am drydedd cyrchfan a fyddai'n bywiogi Canolfan Siopa Bwcle, sef yr hen Original Factory Shop ar Ffprdd Brunswick.

# CYFLEOEDD POBL



## Cymunedau Cysylltiedig

Gwella cysylltedd cymdogaethau Bwcle gyda chanol y dref sy'n hygyrch, wedi ei rwydweithio ac yn ddeniadol boed hyn yn ffurfio rhan o deithio llesol, neu gynlluniau bioamrywiaeth a phrosiectau byd natur lleol.

- Datblygu a gweithredu buddsoddiadau teithio llesol sy'n cysylltu â llwybrau lleol;
- Darparu cyfleusterau teithio llesol yng nghanol y dref yn benodol ar gyfer beicwyr;
- Datblygu dehongli lleol ar dreftadaeth, celfyddydau a diwylliant;
- Datblygu ffyrdd o wella cysylltiadau rhwng yr orsaf drenau a chanol y dref.



## Atebion Lleol

Mae angen i Bwcle ddod at ei gilydd i archwilio, creu a chyd-gyflwyno atebion lleol sy'n mynd i'r afael â bylchau presennol yn yr hyn sydd gan ganol y dref i'w gynnig ond sydd hefyd yn dod â phobl at ei gilydd trwy'r treialu, ymgyrch neu brosiect. Gellir cyflawni hyn trwy agwedd gyfamserol at y prosiect, defnyddio marchnadoedd awyr agored a thrwy ddigwyddiadau a gwyliau.

- Amlygu bywyd cymunedol, grwpiau, clybiau a straeon sydd i'w cael yn y dref ehangach ond a roddir lle iddynt yng nghanol y dref i hyrwyddo eu gweithgarwch, partneriaethu â chaffi lleol, nosweithiau cymdeithasol, etc;
- Sefydliadau partner sydd â dilyniant a hunaniaeth a fyddai'n fwy gweledol yng nghanol y dref ee siop gymunedol Clwb Pêl-droed Tref Bwcle gyda rhwyd bêl-droed o dan do;
- Gweithgarwch dros dro yng Nghanolfan Siopa Bwcle. Gweithio gyda'r landlord ar gyfres o ddigwyddiadau dros dro megis clwb swper (partner Siop Fferm), sinema gymunedol, theatr a gweithgareddau eraill.



## Gweithio mewn Partneriaeth

Er mwyn sicrhau bod gweithgarwch a buddsoddiadau seiliedig ar le yn cael effaith a'u bod yn gynaliadwy, strategol a lleol, mae angen i bartneriaethau fod yn rhai agos sy'n sicrhau bod pob gwybodaeth, profiad, sgiliau ac ymdrech yn anelu at yr un cyfeiriad. Mae angen i bartneriaeth tref ganolbwyntio ar wybodaeth, hyrwyddo a rhannu. Mae hefyd angen i Bwcle dreialu rhai syniadau sy'n ymwneud â'r gymuned ac yn bywiogi canol y dref.

- Datblygu rhaglen weithgareddau stryd – cerddoriaeth, celfyddydau, marchnadoedd – treialu 'llwyfan band' stryd;
- Datblygu cynllun celf cymunedol sy'n cefnogi, arwyddion, dweud stori Bwcle, murluniau ar y pyrth;
- Gweithio gyda landlord y Ganolfan Siopa ar ddigwyddiadau dros dro – sinema, clybiau swper, theatr ...;
- Cadwch Bwcle yn Daclus/Wyrdd – archwilio ffyrdd o dacluso/gwyrddu/plannu mewn pyrth, llecynnau a danddefnyddir, mannau cyhoeddus.

# CYFLEOEDD POBL




## Adeiladu Brand Bwcle

Mae Bwcle yn dref falch, gyda sylfaen gref mewn diwydiant, fel lle gwneud brics a chrochenwaith, cymuned, cerddoriaeth a llawer mwy. O blwyf bach daeth yr anheddiad ail fwyaf yn Sir y Fflint oherwydd ei leoliad ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr a'r galw am dai. Mae'r anheddiad wedi tyfu y tu hwnt i'r hyn oedd canol y pentref gydag angen i ail-gyfleu canol y dref i'w drigolion, yn rhai sefydledig a newydd. Nid yw hunaniaeth yn cael ei greu trwy logo neu slogan ond yn hytrach trwy ymgyrch sy'n gydnaws â theimlad y lle a'i bobl. Mae angen iddo ddyrchafu asedau unigryw fel y dref a adeiladodd frics sydd wedi cael eu defnyddio ledled y byd, trwy ei fand pres a bod Led Zeppelin wedi chwarae yn y Tivoli. Gallai ymgyrch o'r fath fod ynglŷn â "Adeiladu ar Hanes Bwcle" sy'n edrych i'r gorffennol ond hefyd i'r presennol.

- Cod dylunio i ganol y dref sy'n cefnogi paled y dref, dyluniad blaen siopau, arwyddion, etc;
- Mentrau brandio dan arweiniad y gymuned – prosiectau celf cymunedol, murluniau, llwybrau, ymgyrch ffotograffiaeth lleol a mentrau eraill;
- Datblygu rhaglenni digwyddiadau lleol – ar raddfa fawr a lleol;
- Cymorth i fusnesau canol y dref sy'n hyrwyddo neges "leol" a theimlad o le/cymuned trwy ddull cyfunol sydd ar-y -stryd ac yn ddigidol.

## Symud Ymlaen

Mae gweithredu'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn dibynnu ar ddull partneriaeth lle mae grwpiau a sefydliadau'n dod at ei gilydd o wirfodd i ddatblygu a pheri i newid ddigwydd yng nghanol tref Bwcle a'i gymdogaethau cyfagos. Mae'r cyfleoedd o fewn y Cynllun Creu Lleoedd hwn yn gofyn am wahanol gyfuniadau o bartneriaid, adnoddau ac amserlen ar gyfer datblygu a chyflawni.





creu lleoedd

SIRYFFLINT

chris jones

Roberts Limbrick